# DANGOSFWRDD ORGANIG
## Hydref 2018 – Medi 2019

**% weithgaredd yn berthnasol i'r sector Organig:**

**22%** O WEITHGAREDD ORGANIG

**571** O'R BUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU **gyda Cyswllt Ffermio yn rhan o'r sector Organig.**

### Rhwydwaith Arddangos

#### Archwilio'r defnydd o daenfa sglodion pren i reoli chwyn ym maes cynhyrchu llysiau organig

Mae Square Farm yn fusnes teuluol sy'n cynnwys siop fferm ffyniannus sy'n gwerthu bwydydd organig cartref yn ogystal â nifer o gynnyrch lleol o Ddyffryn Wysg a'r ardaloedd cyfagos. Gyda rheoli'r chwyn yn dod yn fwy a mwy heriol, sefydlwyd arbrawf i asesu a fyddai defnyddio gwastraff sglodion pren gan bobl sy'n trin coed er mwyn atal twf chwyn ymhlith llysiau a dyfir yn organig.

**Prif negeseuon:**

Dangosodd yr arbrawf bod taenfa o sglodion pren a roddwyd ar gnydau llysiau yn rheoli'r chwyn yn dda dros gyfnod hir ac nid oedd yn ymddangos i fod yn cystadlu am nitrogen gyda'r cnwd. Gwelwyd yn amlwg bod y sglodion pren wedi cynyddu lleithder mewn blwyddyn sych, wedi annog gweithgaredd pryfed genwair, a gwelwyd llawer o ffwng yn ymgartrefu yn y lleiniau gyda'r sglodion.

Ar ôl cynaeafu, gellir ymgorffori'r daenfa i'r pridd gyda gwastraff y cnwd, ac er y gallai fod yn cystadlu am nitrogen gyda chnydau dilynol, gellid lleihau'r effaith gan ddefnyddio gwrteithiau cymeradwy neu drwy dyfu cnwd codlysol fel rhan o'r cylchdro. Yn y pen draw, byddai'r nitrogen yn cael ei ryddhau unwaith eto er budd cnydau dilynol. Mae taenfa o'r fath yn debygol o fod fwyaf cost effeithiol ar gnydau llysiau lluosflwydd gan gynnwys riwbob, asbaragws ayb lle nad yw'r pridd yn cael ei symud am sawl blwyddyn, a gallai hefyd wella strwythur y pridd a'i allu i wrthsefyll sychder, gan leihau erydiad pridd ar yr un pryd.



Cliciwch yma i ddarllen mwy.

#### Digwyddiad rheoli gwrychoedd ar gyfer cynhyrchu tanwydd coed yn Safle Ffocws Plas y Cerdin

Nodau'r digwyddiad a gynhaliwyd oedd:

1. Darparu llwyfan i integreiddio'r rhaglen waith â'r calendr ffermio.
2. Sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision lluosog coed
3. Sicrhau gwell tryloywder ynghylch rheoliadau gwrychoedd, a chydymffurfio

Eglurwyd manteision cael seilwaith gwyrdd cadarn ar y fferm gan gynnwys gwell bioddiogelwch i dda byw, iechyd a lles anifeiliaid, iechyd a lles wrth drafod da byw, a sut y gallai coetir llinellol mewn lleoliadau strategol wella dull trafod a chasglu. Trafodwyd cynlluniau rheoli yn y dyfodol yn ogystal â llygredd amaethyddol a chyfarwyddebau LIC yn y dyfodol o safbwynt y tebygolrwydd y bydd ymarfer rheoleiddio'n cael ei gyflwyno. Mae'r ffeithiau yno i ffermwyr eu hystyried ac edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael. Gallant fanteisio ar blannu coed a sefydlu parthau clustogi a lleiniau cysgodi i wella agwedd amgylcheddol y fferm. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fusnes y fferm.


#### Monitro llyngyr yr iau ar safle arddangos Orsedd Fawr

Mae Orsedd Fawr yn fferm organig sy'n deall y problemau ymarferol yn ymwneud â rheoli llyngyr yr iau. Gyda hynny mewn golwg, maen nhw'n ymchwilio i wahanol brofion ar gyfer llyngyr yr iau i weld pa un sy'n rhoi'r arwyddion cychwynnol gorau ar eu fferm. Ym mis Rhagfyr 2018, gwelwyd bod llyngyr yr iau yn bresennol yn ystod profion coproantigen ar y lloi er bod y prawf cyfrif wyau ysgarthol yn dangos canlyniad negyddol. Roedd hyn yn dangos bod llyngyr yr iau yn bresennol, ond gan nad oedd pob un wedi tyfu'n llawn, nid oedd wyau'n cael eu cynhyrchu. Byddai triniaeth yn cael ei dargedu'n nes at ddechrau'r haint, gan leihau colledion cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â'r clefyd.

### EIP Cymru


#### Porfa i Beillwyr

Mae chwe ffermwr llaeth Calon Wen o bob cwr o Gymru yn arwain ar brosiect yn edrych sut y gallent leihau'r dirywiad mewn niferoedd cacwn drwy reoli eu porfeydd mewn ffordd wahanol. Gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, mae'r ffermwyr yn gobeithio gwella eu rheolaeth o gynefinoedd megis gwrychoedd a phorfeydd parhaol. Yn ogystal, maen nhw'n rhoi cynnig ar ddefnyddio arferion gwahanol er mwyn gwneud silwair, sy'n golygu gadael stribedi o borfa heb ei dorri yn y cae, gan alluogi'r gwenyn i gyrraedd y blodau yn y stribedi hyn nes bod gweddill y cae yn ail dyfu ac yn dechrau blodeuo unwaith eto.



EIPWALES
Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Mae canlyniadau hyd yma'n dangos bod yr holl ffermwyr sy'n rhan o'r prosiect wedi gweld mwy o flodau, sydd, yn ei dro wedi cynyddu nif-eroedd y peillwyr.




#### Asbaragws Organig



Mae potensial mawr i dyfu asbaragws yng Nghymru gan ei fod yn gnwd gwerthfawr, ond a yw'r ffigyrau'n gwneud synnwyr economaidd wrth dyfu'r cnwd yn organig ar raddfa fechan? Bydd y prosiect hwn yn archwilio a yw'r costau sefydlu uchel a'r cyfnod hir o aros nes y cynhaeaf cyntaf yn ymarferol ar ffermydd garddwriaeth ar raddfa fach.

Plannwyd y cnwd yn 2018, ac yn 2019, cwblhawyd asesiad o lwyddiant y cnwd. Roedd hyn yn cynnwys asesu datblygiad y dail, sy'n rhoi syniad o'r cynnyrch at y dyfodol.

## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r erthyglau technegol canlynol wedi cael eu cynhyrchu gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG DELWEDDU THERMOL I WELLA GWAITH CYNHYRCHU DA BYW
- CYNHYRCHU CNYDAU PORTHIANT DRWY DDEFNYDDIO HYDROPONEG
- CWTOGI'CH COLLEDION: MANTEISIO I'R EITHAF AR FUDDION CYNLLUN RHEOLI MAETHOLION

Mae'r taflenni ffeithiau canlynol wedi cael eu cynhyrchu gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- RHEOLI TAFOL
- SILWAIR AML-DORIAD
- GWELLA CYNHYRCHIANT MEILLION COCH

## Grwpiau Trafod

CYNHALIWYD **28** CYFARFOD GRŴP TRAFOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR ORGANIG

**264** O FYNYCHWYR

### Astudiaeth Achos

**Cyfarfod Grŵp Trafod Llaeth Organig Gogledd Cymru gydag Owen Atkinson, Milfeddyg Llaeth Ymgynghorol, yn trafod Signalau'r Fuwch.**

Gofynnodd Owen i bob aelod o'r grŵp ateb tri chwestiwn er mwyn deall mwy am arferion hwsmonaeth yr aelodau

- Faint o brofiad (os o gwbl) sydd gennych chi'n ymwneud â signalau'r fuwch?
- Beth yw'r peth cyntaf fyddwch chi'n chwilio amdano wrth gerdded at fuches o wartheg?
- Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf ynglŷn â gweithio gyda gwartheg?

Aeth Owen yn ei flaen i drafod gofynion y fuwch er mwyn ffynnu.

1. Aer
2. Golau
3. Dŵr
4. Porthiant
5. Gorffwys
6. Gofod
7. Iechyd (bydd hyn yn dilyn os bydd popeth arall ar gael)

Iechyd yw'r peth pwysicaf mewn system Organig er mwyn lleihau'r angen am ymyrraeth feddyginiaethol.

Cafodd pawb restr wirio 3 phwynt cyn mynd allan i asesu'r fuches yn y sied.

#### Beth oedd yn mynd yn dda?

- Mesuriadau cywir ar gyfer y rhwystr pori
- Ciwbiclau – gwelyau dwfn
- Canran cloffni isel
- BCS da
- Dim gwartheg gwag (o ran porthiant)
- Gwartheg glân
- Pellter rhwng y ffermwr a'r fuwch dan 1 metr

#### Beth NAD OEDD yn mynd yn dda?

- Gwelyau o bosibl ychydig yn fyr (ond nid oedd y gwartheg yn fawr chwaith)
- Gwartheg yn rhy dew o bosibl
- Capasiti'r cafn ac uchder y biben
- Gofod fesul buwch
- Golau

#### Beth fyddai modd ei wella?

Nodwyd syniadau ymarferol ar gyfer gwella ar y fferm. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cafn fwy neu ddefnyddio llwyfan borthi; bwydo dogn cywasgedig yn hytrach na TMR, dwywaith y dydd; creu mwy o le i'r gwartheg.

Anogwyd pawb i fynd â'r rhestr wirio o amgylch eu fferm eu hunain er mwyn canfod meysydd i'w gwella.

## Agrisgôp

CYNHALIWYD **67** CYFARFOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR ORGANIG

Dyma rai enghreifftiau o themâu'r grwpiau:

- Deall triniaeth dŵr
- O'r giât i'r plat
- Ymweld â fferm arddwriaeth organig
- Gwell pridd a dŵr glanach


## Mentora

MAE GENNYM NI **9** MENTOR ORGANIG AR Y FFRAMWAITH

Mae pobl yn derbyn gwasanaethau mentora'n ymwneud â'r pynciau canlynol:

- Trawsnewid i gadw defaid organig
- Cynhyrchu llaeth organig
- Cynhyrchu llysiau organig
- Cynyddu allbynnau o system organig


Cliciwch yma am **broffil Alan**


Cliciwch yma am **broffil Dafydd**


Cliciwch yma am **broffil David**


Cliciwch yma am **broffil Helen**


Cliciwch yma am **broffil Hayden**


Cliciwch yma am **broffil Keri**


Cliciwch yma am **broffil Phillip**


Cliciwch yma am **broffil Richard**


Cliciwch yma am **broffil Romeo**

## Cyfnewidfa Rheolaeth

**Cyfnewidfa Rheolaeth Hywel Morgan, Hydref 2018**

**Pwnc:** Ffermio Mewnbwn Isel, Ffermio Organig, Gwyndonnydd Llysieuol, Rheolaeth Holistig a Ffermio Atgynhyrchiol

**Gwledydd:** Lloegr a Llydaw

Bu Hywel yn ymweld â nifer o ffermydd yn Lloegr a Llydaw sy'n defnyddio arferion rheoli holistig ac atgynhyrchiol, cynhyrchiant organig a gwyndonnydd llysieuol, i weld beth fyddai'n gallu gweithio ar ei fferm ei hun ac mewn busnesau eraill tebyg yng Nghymru.

Bu'n ymweld â fferm âr a llysiau organig yn ogystal â dwy fferm laeth organig yn ystod ei daith.

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad Hywel.

## Hyfforddiant

Cafwyd 4 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2018 a Medi 2019 gydag **808** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn.

Gallai nifer o'r achosion hyfforddiant hwn fod o fewn y sector Organig.

## E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn ymwneud â'r sector Organig:

- CYWASGIAD PRIDD
- GWELLA IECHYD Y PRIDD
- GARDDWRIAETH ORGANIG

Am ragor o fanylion ynglŷn ag e-ddysgu, ewch i'r wefan.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government